Teilo, 6ed ganrif
Sant

Er bod y seintiau hyn yn gymeriadau hanesyddol o gig a gwaed, dros y canrifoedd y mae'r ffeithiau wedi eu plethu gyda chwedlau. Gadawaf i'r darllenydd ddidoli'r naill oddi wrth y llall – y cnau oddi wrth y plisgyn.

Ganwyd Teilo ym Mhenalun (Penally), ger Dinbych-y-pysgod, Penfro, yn fab i Gwenhaf ac Usyllt. Fe'i haddysgwyd gan Illtyd a Dyfrig Sant, a phan fu farw'r olaf fe etifeddodd Teilo ei holl fynachlogydd. Daeth yn gyfaill i nifer o dywysogion lleol a rhoddwyd tir yn rhodd iddo am ei gymorth iddynt. Ar un achlysur cynorthwyodd y Brenin Aircol Law-hir o Ddyfed a oedd yn cael trafferthion disgyblaeth gyda'i filwyr a'i weision. Yr oeddent byth a hefyd yn meddwi ac yn ymladd â'i gilydd, a byddai rhywun yn cael ei ladd yn gyson. Bendithiodd Teilo'r brenin a'i ddeiliaid a threfnodd fod dau o'i fynaich yn aros yn y llys ai ofalu am y gwaith o rannu bwyd a diod i'r gweision a'r milwyr. O'r noson honno ymlaen ni fu unrhyw feddwi, ymladd na lladd.

Yn y flwyddyn 547 daeth pla y Fad Felen i Gymru a ffodd Teilo a'i gyfeillion i Gernyw ac yna i Lydaw. Arhosodd yn Dôl yn Llydaw gyda Samson Sant am saith mlynedd a sefydlodd nifer o eglwysi yno. Wedi dychwelyd i Gymru ymsefydlodd yn Llandeilo Fawr lle'r oedd ei bencadlys. Yno yr arhosodd hyd 577 pryd y croesodd y Saeson afon Gwy a meddiannu Gwent. Casglodd y Brenin Iddom fyddin at ei gilydd i geisio concro'r goresgynwyr a gofynnodd am gymorth Teilo. Aeth y ddau i weddïo ar lethrau mynydd ac ar lan afon Trothwy. Wedi i Iddom a'i ddynion ennill y dydd, rhoddodd y tir yn anrheg i Teilo ac yno y saif Llandeilo Gresynni ym Mynwy heddiw.

Dywedir mai yn Llandeilo Fawr y bu farw a bu dadlau ffyrnig rhwng mynaich Penalun, Llandeilo a Llandaf ynglŷn â ble y dylid claddu ei gorff. Mynnai mynaich Penalun mai yno y dylai orffwys gan mai yno yr oedd ei gyndeidiau. Dywedid yn Llandeilo mai yno y dylid ei gladdu gan iddo farw yn y parthau hynny.

Dadleuai mynaich Llandaf y dylid ei ddaearu yno lle y bu'n esgob. Trannoeth i'w farw ymddangosodd tri chorff yn union yr un fath â'i gilydd a thrwy hynny bodlonwyd pawb, ond fe ddywedir ar dafod leferydd mai Llandaf a gafodd y corff go iawn. Yn achlysurol byddai cryn ddadlau ynghylch man claddu seintiau oherwydd gallai fod yn fanteisiol iawn yn ariannol i eglwys gael creiriau saint ar gyfer pererinion. Yr hen arfer o dorri'r ddadl oedd rhoi'r corff ar drol a dynnid gan ychen, a gadael i'r ychen ddilyn ei thrywydd ei hun. Coffeir Teilo ar 9 Chwefror. Y mae nifer o eglwysi wedi eu cysegru iddo, gan gynnwys Llandeilo Fawr, Eglwys Lwyd, Amroth, Trelech, Llandeilo'r-fân a Llandeilo Graban.

Yn ôl ffynhonnell arall, wedi marw Teilo ymadawodd Euddogwy, nai Teilo, â Llandeilo Fawr, ynghyd â rhai o'i ddisgyblion, gan ymsefydlu yn Llandaf. Rhoddwyd tir iddynt ar gyfer sefydlu eglwys gan frenin Morgannwg, sef Meurig ap Tewdrig. Dywedir mai Llandaf a etifeddodd draddodiadau Teilo ac enw'r eglwys gadeiriol o'r cychwyn fu Eglwys Teilo.